# GORFFENNAF 2021

# CYNNWYS


1. Cyflwyniad 2

2. Dull monitro cymwysterau galwedigaethol 4

3. Cymwysterau iechyd a diogelwch a chodi a chario yng Nghymru 5

4. Y cymwysterau iechyd a diogelwch a chodi a chario yr ydym yn eu rheoleiddio 6

5. Sut y buom yn monitro'r cymwysterau 9

6. Yr hyn a ganfuom 10

7. Y camau a gymerwyd gennym 12

8. Casgliad a chamau nesaf 13

# 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio ein gwaith o fonitro cymwysterau rheoleiddiedig mewn iechyd a diogelwch a chodi a chario, a gynigir gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig yng Nghymru. Mae'n esbonio ein sail resymegol dros ymgymryd â'r gwaith a sut wnaethom gyflawni'r gweithgaredd monitro; mae'n crynhoi ein casgliadau a'r camau a gymerwyd gennym o ganlyniad. Monitro cymwysterau iechyd a diogelwch a chodi a chario yw'r trydydd gweithgaredd sy'n ffurfio rhan o'n rhaglen ehangach o fonitro cymwysterau galwedigaethol, fel yr amlinellwyd yn ein Strategaeth Cymwysterau Galwedigaethol, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016[1].

Canolbwyntiodd ein gwaith monitro ar un cymhwyster iechyd a diogelwch ac un cymhwyster codi a charioa gynigir ar draws wyth corff dyfarnu yng Nghymru. Cynigiwyd naill ai un neu'r ddau o'r cymwysterau hyn gan gyrff dyfarnu, sef:

- Dyfarniad Lefel 2 mewn Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle
- Dyfarniad Lefel 2 mewn Egwyddorion Codi a Chario

*Noder: gall fod rhywfaint o amrywiad yn nheitlau'r cymwysterau.*

Ym mis Chwefror 2019, ysgrifennom at y cyrff dyfarnu yn gofyn am dystiolaeth ar gyfer y gweithgaredd monitro hwn. Gyda chymorth arbenigwyr iechyd a diogelwch, ac arbenigwyr asesu, adolygom y dystiolaeth yn erbyn ein Hamodau Cydnabod Safonol, sy'n manylu ar ein gofynion parthed dyluniad, asesiad a sicrhau ansawdd y cymwysterau hyn.

Roedd yr adroddiad hwn i fod i gael ei gyhoeddi yn 2020 ond bu'n rhaid ei ohirio oherwydd yr angen i flaenoriaethu gwaith mewn ymateb i sefyllfa COVID-19.

[1] Cymwysterau Cymru / Strategaeth Cymwysterau Galwedigaethol

## Casgliadau

Yn gyffredinol, roeddem yn fodlon bod yr asesiadau'n ddilys a'u bod wedi arwain at ganlyniadau dibynadwy. Canfuom fod cynnwys y cymwysterau yn addas at y diben ac yn adlewyrchu arferion iechyd a diogelwch cyfredol. Bu'r dulliau asesu a lefelau galw'r asesiadau a ddarparwyd gan y cyrff dyfarnu yn briodol. Canfuwyd yn gyffredinol fod prosesau rheoli canolfannau a sicrhau ansawdd yn gadarn ar draws cyrff dyfarnu.

Dangosodd tri chorff dyfarnu eu bod yn cydymffurfio â'n Hamodau Cydnabod Safonol ar gyfer y cymwysterau hyn.

Roeddem o'r farn bod pum corff dyfarnu wedi peidio â chydymffurfio ag o leiaf un o'n Hamodau am o leiaf un o'r ddau gymhwyster. Bu'n ofynnol i'r cyrff dyfarnu hyn gyflwyno cynlluniau gweithredu mewn ymateb i'r achosion o ddiffyg cydymffurfio.

Nododd ein gwaith monitro hefyd feysydd yr oedd angen eu gwella ar draws cyrff dyfarnu, ond nad oeddem o'r farn nad oeddent yn cydymffurfio â'n Hamodau Cydnabod Safonol. Yn yr achosion hyn, cyhoeddom argymhellion i gyrff dyfarnu ystyried ein canfyddiadau a gwneud newidiadau.

## Gweithgareddau dilynol

Cyflwynwyd i ni gynlluniau gweithredu gan gyrff dyfarnu erbyn ein dyddiad cau o 8 Tachwedd 2019. Adolygom y cynlluniau gweithredu i sicrhau eu bod yn briodol ac yn mynd i'r afael â'n pryderon yn llawn.

Ar ôl i ni adolygu a chytuno'r cynlluniau gweithredu, cyflawnodd pob corff dyfarnu eu gweithredoedd priodol.

Enghreifftiau o weithredoedd a gyflawnwyd gan gyrff dyfarnu oedd:

- ailddrafftio cwestiynau a ddefnyddiwyd mewn asesiadau byw;
- diwygio berfau gorchmynnol a gynhwyswyd ym meini prawf yr asesiad; a
- diwygio manylebau i wella eglurder ac/neu adlewyrchu newidiadau eraill.

Roeddem yn fodlon gyda'r camau a gymerwyd gan y cyrff dyfarnu i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'n Hamodau Cydnabod Safonol yn y meysydd a nodwyd yng nghyswllt y gweithgaredd monitro hwn.

## 2. Dull monitro cymwysterau galwedigaethol

Nod ein gwaith monitro yw sicrhau bod cymwysterau galwedigaethol yn addas at y diben pan gânt eu cymryd gan ddysgwyr yng Nghymru. Mae ein rhaglen monitro benodedig yn dangos i gyrff dyfarnu fod gennym ddiddordeb brwd yn ansawdd y broses o asesu cymwysterau galwedigaethol.

Rydym yn adolygu ein cynlluniau monitro yn rheolaidd i sicrhau ein bod yn ymateb i faterion sy'n codi - ar yr un pryd â mabwysiadu dull strategol wrth ddewis cymwysterau i'w monitro. Rydym yn ystyried sawl ffactor wrth benderfynu pa gymwysterau i'w monitro, gan gynnwys a  yw'r cymwysterau:

- yn gymwys i dderbyn arian cyhoeddus;
- yn derbyn nifer uchel o ymgeiswyr ac yn dyfarnu nifer uchel o dystysgrifau;
- yn asesu meysydd gwaith lle mae diogelwch yn allweddol;
- yn ateb gofyniad cyflogaeth mewn rôl gysylltiedig, neu'n cynnig trwydded i ymarfer;
- yn cynnig mynediad i Addysg Uwch; ac
- wedi bod yn achos i ni godi pryderon yn eu cylch drwy ein prosesau cwynion neu ddigwyddiadau.

Ar ôl ystyried y ffactorau hyn, penderfynom ganolbwyntio ein rhaglen monitro cymwysterau yn y meysydd canlynol: cymorth cyntaf (2017), diogelwch bwyd (2018) ac iechyd a diogelwch, yn cynnwys codi a chario (2019).

Fel rhan o'n gwaith monitro, rydym yn cymharu gwybodaeth a thystiolaeth gan wahanol gyrff dyfarnu i brofi cydymffurfio â'n Hamodau Cydnabod Safonol gan ganolbwyntio ar:

- ddilysrwydd a dibynadwyedd yr asesiad a'r safonau a osodwyd;
- prosesau sicrhau ansawdd; a'r
- arweiniad a gynigir i'r darparwyr dysgu ac i ba raddau mae hyn yn ddigonol i ddiwallu eu hanghenion.

Rydym yn ceisio cynnwys arbenigwyr pwnc ac arbenigwyr asesu i gynnal rhan o'r gwaith monitro.



# 3. Cymwysterau iechyd a diogelwch a chodi a chario yng Nghymru

Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974[2] (HASAWA) yn disgrifio dyletswyddau'r cyflogwr wrth sicrhau iechyd, diogelwch a lles eu gweithwyr yn y gwaith. Mae hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth, cyfarwyddyd, hyfforddiant a goruchwyliaeth.

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yw'r rheoleiddiwr annibynnol ym Mhrydain Fawr ar gyfer iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â gwaith. Ei bwrpas yw atal marwolaethau, anafiadau ac afiechydon sy'n gysylltiedig â gwaith[3].

Mae gwefan HSE[4] yn darparu arweiniad i gyflogwyr ar eu dyletswyddau cyfreithiol yng nghyswllt darparu hyfforddiant a gwybodaeth. Rhaid i gyflogwyr ddarparu "cyfarwyddiadau a gwybodaeth glir, yn ogystal â hyfforddiant digonol" er mwyn i weithwyr wybod sut i weithio'n ddiogel heb beryglu iechyd.

Mae'r Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chario 1992 (MHOR)[5] yn manylu ar sut mae'n rhaid i gyflogwyr ymdrin â'r risgiau sy'n gysylltiedig â chodi a chario. Mae'r HSE yn darparu arweiniad penodol i gyflogwyr i'w helpu i gydymffurfio â MHOR[6]. Mae hyfforddiant perthnasol yn un agwedd ar leihau'r risg o anaf.

Yn achos y rhan fwyaf o weithwyr, nid yw'n orfodol iddynt feddu ar gymhwyster mewn iechyd a diogelwch neu godi a chario. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni eu dyletswyddau o dan HASAWA neu MHOR, gall fod angen i gyflogwyr ddarparu hyfforddiant mewnol neu allanol mewn iechyd a diogelwch a/neu godi a chario ar gyfer eu gweithwyr. Gall yr hyfforddiant hwn arwain at gymhwyster ond nid o anghenraid. Gall cymwysterau fod yn rheoleiddiedig neu'n anrheoleiddiedig.

Nid oes gan Cymwysterau Cymru gylch gwaith rheoleiddiol i allu ystyried ansawdd hyfforddiant iechyd a diogelwch neu hyfforddiant codi a chario na chwaith ansawdd cymwysterau anrheoleiddiedig ar gyfer iechyd a diogelwch.

[2] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1974/37/contents
[3] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon HSE 2019/20
[4] https://www.hse.gov.uk/simple-health-safety/training/index.htm
[5] https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/1992/2793/contents/made
[6] https://www.hse.gov.uk/msd/manual-handling/index.htm

# 4. Y cymwysterau iechyd a diogelwch a chodi a chario yr ydym yn eu rheoleiddio

Mae Cymwysterau Cymru yn rheoleiddio cymwysterau, ac eithrio graddau, yng Nghymru. Fe'n sefydlwyd yn 2015 gan Ddeddf Cymwysterau Cymru, ac rydym yn rheoleiddio cymwysterau sy'n cael eu datblygu a'u cyflwyno gan y cyrff dyfarnu a gydnabyddir gennym. Pan fydd corff dyfarnu yn gorff a gydnabyddir gennym, rhaid iddo gydymffurfio â'r rheolau a bennir gennym gan gynnwys ein Hamodau Cydnabod Safonol. Mae'r rhain yn manylu ar ein gofynion parthed dylunio, asesu a sicrhau ansawdd cymwysterau. Mae'r Amodau hyn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu gael prosesau monitro cadarn i wirio ansawdd eu darparwyr hyfforddiant.

Rydym yn cymryd y cyfrifoldeb sydd gennym fel rheoleiddiwr cyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau iechyd a diogelwch a chodi a chario o ddifri. Os mae cyflogwr yn dewis i'w gweithwyr gymhwyster a reoleiddir gennym, rydym am iddo fod yn hyderus bod y cymhwyster hynny o'r ansawdd disgwyliedig. O ganlyniad, gall cyflogwr sy'n dewis cymhwyster rheoleiddiedig, a gynigir gan un o'r cyrff dyfarnu a gydnabyddir gennym, ddisgwyl yn rhesymol y bydd ansawdd y cymhwyster a'r asesiad o safon uchel.

Yn gyffredinol, cynhelir cyrsiau sy'n arwain at gymhwyster mewn iechyd a diogelwch a chodi a chario dros gyfnod byr o amser. Er enghraifft, fel arfer cynhelir y Dyfarniad Lefel 2 mewn Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle dros chwech i ddeg awr, a'r Dyfarniad Lefel 2 mewn Egwyddorion Codi a Chario dros bedwar i saith awr. Mae hyn yn cynnwys yr holl ddysgu a chyflawni'r asesiad gofynnol. Er mwyn cyflawni'r cymwysterau hyn yn llwyddiannus, rhaid i ddysgwyr ddangos dealltwriaeth yn erbyn meini prawf asesu penodol sy'n asesu gwybodaeth a dealltwriaeth greiddiol am iechyd a diogelwch a chodi a chario. Nid yw'r cymwysterau yn asesu cymhwysedd proffesiynol na sgiliau ymarferol.

Dyfarnwyd ystod o gymwysterau iechyd a diogelwch a chodi a chario am y cyfnod 1 Hydref 2017 hyd 30 Medi 2018, ar draws lefelau 2 i 6, gyda chyfanswm o 3,515 tystysgrif. Hwn oedd y cyfanswm uchaf o dystysgrifau ar ôl cymwysterau mewn cymorth cyntaf a diogelwch bwyd. Bu'r cymwysterau hyn yn ymdrin â meysydd megis iechyd a diogelwch yn y gweithle ac ymarfer iechyd a diogelwch galwedigaethol.

Dyfarnwyd cyfanswm uchel o dystysgrifau (2,090) ar gyfer Dyfarniad Lefel 2 mewn Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle yng Nghymru am y cyfnod 1 Hydref 2017 hyd 30 Medi 2018. Mae hwn yn gymhwyster iechyd a diogelwch cyffredinol, gyda'r nod o ddarparu gwybodaeth a dealltwriaeth i ddysgwyr am iechyd a diogelwch yn y gweithle. Felly penderfynom fonitro'r cymhwyster hwn gan y gallai fod yn addas ar gyfer pob sector.

Cynhwysom yn ein gwaith monitro bob cymhwyster lefel 2 gyda 'chodi a chario' yn y teitl. Gyda'i gilydd, bu'r cymwysterau hyn yn cynrychioli'r cyfanswm uchaf nesaf o dystysgrifau (1,180) yn y sector am yr un cyfnod.

Mae Tabl 1 isod yn dangos nifer y tystysgrifau a gyflwynwyd gan gyrff dyfarnu am y cymwysterau a ddewiswyd ar gyfer iechyd a diogelwch a chodi a chario yng Nghymru rhwng 1 Hydref 2017 a 30 Medi 2018.

**Tabl 1: Tystysgrifau mewn cymwysterau iechyd a diogelwch a chodi a chario yng Nghymru 1 Hydref 2017 hyd 30 Medi 2018** [7]

| **Cymhwyster** | **Nifer y tystysgrifau** |
|---|---|
| Dyfarniad Lefel 2 mewn Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle | 2,090 |
| Dyfarniad Lefel 2 mewn Egwyddorion Codi a Chario* | 1,180 |
| **Cyfanswm** | **3,270** |

**gan gynnwys pob dyfarniad lefel 2 gyda chodi a chario yn y teitl*

Wrth ddewis y cymwysterau hyn, buom yn monitro cymwysterau a oedd yn cynrychioli 93% o'r holl dystysgrifau yng Nghymru ar lefelau 2 i 6 gyda 'iechyd a diogelwch' neu 'codi a chario' yn y teitl. Mae'r cymwysterau a ddewiswyd i gyd yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth am ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch.

[7] Mae hyn yn cynnwys rhywfaint o ddata sy'n berthnasol i gymwysterau nad oeddent bellach ar gael i ganolfannau yng Nghymru erbyn i ni gynnal ein gwaith monitro.

Mae Tabl 2 yn dangos yr wyth corff dyfarnu a gynhwyswyd wrth fonitro cymwysterau iechyd a diogelwch a chodi a chario ynghyd â'r nifer o dystysgrifau fesul corff dyfarnu rhwng 1 Hydref 2017 a 30 Medi 2018.

**Tabl 2: Tystysgrifau fesul corff dyfarnu yng Nghymru rhwng 1 Hydref 2017 a 30 Medi 2018.**

| Corff dyfarnu | Dyfarniad Lefel 2 mewn Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle | Dyfarniad Lefel 2 mewn Egwyddorion Codi a Chario |
|---|---|---|
| Cyngor Diogelwch Prydain (BSC) | 340 | 45 |
| City & Guilds | 65 | 25[8] |
| Highfield Qualifications | 1,005 | * |
| Pearson | 0[9] | * |
| Qualsafe Awards | 175 | 520 |
| Qualifications Network (QNUK) | 20 | 70 |
| Y Gymdeithas Frenhinol er Iechyd Cyhoeddus (RSPH) | 215 | * |
| Training Qualifications UK Ltd (TQUK) | 5 | * |
| **Cyfanswm** | **1,825** | **660** |

*Seren i ddynodi nad yw'r corff dyfarnu yn cynnig y cymhwyster hwn.*

[8] Gofynnodd City & Guilds dynnu o reoleiddio yng Nghymru ei Dyfarniad Lefel 2 mewn Codi a Chario Gwrthrychau yn Ddiogel cyn dechrau ar y gwaith monitro. Roedd hyn oherwydd nad oedd y cymhwyster ar gael yng Nghymru mwyach bryd hynny.

[9] Er nad oedd Pearson wedi dyfarnu unrhyw dystysgrifau yn ystod y cyfnod hwn, nododd y corff dyfarnu y byddai'n parhau i gynnig y cymhwyster yn y dyfodol.

## 5. Sut y buom yn monitro'r cymwysterau

Ysgrifennom at yr wyth corff dyfarnu a oedd yn cynnig y cymwysterau dewisedig mewn iechyd a diogelwch a chodi a chario yng Nghymru ym mis Chwefror 2019, gyda'r manylion am ein dull monitro ac yn gofyn am dystiolaeth y gallwn ei hadolygu.

Canolbwyntiodd y gwaith monitro ar ddarganfod i ba raddau yr oedd yr asesu yn ddilys ac yn esgor ar ganlyniadau dibynadwy. Gwnaethom ganolbwyntio hefyd ar brosesau'r cyrff dyfarnu ar gyfer cymeradwyo canolfannau i gynnal y cymwysterau hyn ac i fonitro'r canolfannau'n barhaus. Gwnaethom fonitro'r cyrff dyfarnu yn erbyn ein Hamodau Cydnabod Safonol, sy'n manylu ar ein gofynion parthed dylunio, darparu, asesu a sicrhau ansawdd y cymwysterau hyn.

Adolygom y wybodaeth a dderbyniwyd gennym gan gyrff dyfarnu yn ystod 2019. Cynhaliom adolygiad desg o fanylebau'r cymwysterau, deunyddiau canllaw, prosesau rheoli'r canolfannau, a gweithdrefnau sicrhau ansawdd mewnol ac allanol. Gwnaethom hefyd gontractio panel a oedd yn cynnwys dau arbenigwr iechyd a diogelwch allanol ac un arbenigwr asesu allanol er mwyn cynnal adolygiad technegol o ddeunydd asesu, samplau o dystiolaeth a aseswyd gan y dysgwr a dogfennaeth sicrhau ansawdd fewnol ac allanol gysylltiedig.

Fel rhan o waith monitro'r cymwysterau hyn, ymgysylltom â'n cyd-reoleiddwyr cymwysterau, Ofqual yn Lloegr a CCEA Regulation yng Ngogledd Iwerddon. Ymgysylltom â'r rheoleiddwyr hyn er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r gwaith yr oeddem yn ei wneud ynghylch cymwysterau y maent hefyd yn eu rheoleiddio ac i'w diweddaru am ein canlyniadau a'n camau arfaethedig.

# 6. Yr hyn a ganfuom

Roedd ein canfyddiadau yn rhai cadarnhaol ar y cyfan a ddangosodd bod y cymwysterau a adolygwyd yn gwireddu eu diben datganiedig. O ran y cymwysterau iechyd a diogelwch a adolygwyd at ddiben y gwaith monitro hwn, canfuwyd bod tri chorff dyfarnu (Highfield, Qualsafe a RSPH) yn cydymffurfio â'r Amodau Cydnabod Safonol. Am y pum corff dyfarnu oedd yn weddill, nodom rai pryderon ynghylch darpariaeth ac asesu. Amlinellir y rhain isod.

## Meysydd diffyg cydymffurfio

Nododd ein gwaith monitro ddiffygion ar draws pum corff dyfarnu, a ystyriwyd gennym eu bod yn achosion o ddiffyg cydymffurfio gydag o leiaf un o'n Amodau am o leiaf un o'r ddau gymhwyster. Nodwyd themâu tebyg gennym ar draws cyrff dyfarnu.

## Dyluniad y cymhwyster a'r asesiad

### *Berfau gorchmynnol*

Un agwedd a ystyriwyd gennym yn ystod adolygiad y dystiolaeth oedd ystyried a oedd y meini prawf asesu a gyhoeddwyd yn alinio i'r hyn sydd angen i'r dysgwr ei wneud er mwyn cyflawni'r asesiad yn llwyddiannus. Mae hon yn un agwedd y rydym yn ei gwirio fel rhan o waith adolygu dilysrwydd y cymhwyster.

Defnyddir berfau gorchmynnol ym meini prawf asesu'r cymhwyster i ddweud wrth athrawon a dysgwyr sut y mae disgwyl i'r dysgwr ddangos ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth wrth gael ei asesu. Canfuom mewn dau achos fod diffyg aliniad rhwng y berfau gorchmynnol yn y fanyleb a'r hyn y gofynnwyd iddynt ei wneud wedyn yn yr asesiad. Er enghraifft, gwelsom enghreifftiau o feini prawf asesu a oedd yn cynnwys y gorchmynion 'eglurwch', 'amlinellwch' neu 'disgrifiwch'. Byddai disgwyl i'r dysgwr ymateb i'r gorchmynion hyn er mwyn llwyddo yn erbyn y meini prawf. Fodd bynnag, nid oedd y dull asesu (arholiad dull amlddewis) bob tro yn caniatáu i'r dysgwr ddangos y sgiliau hyn. Er gwaethaf hyn, roeddem o'r farn bod yr hyn a oedd yn ofynnol i'r dysgwyr ei ddangos yn ystod yr asesiad yn ddilys er mwyn bodloni amcan y cymhwyster. Felly, yn yr achos hwn, ni wnaeth hyn danseilio dilysrwydd y cymhwyster yn sylweddol. Fodd bynnag, dylai cyrff dyfarnu sicrhau bod aliniad rhwng y meini prawf asesu a'r asesiad. Nododd ein monitro enghreifftiau lle'r oedd cyrff dyfarnu eisoes wedi nodi a datrys y pryder hwn yn ystod eu proses adolygu'r cymhwyster.

## Digonolrwydd gwybodaeth ar gyfer canolfannau

### *Cynnwys dangosol ym manyleb y cymhwyster*

Canfuom nad oedd rhai cyrff dyfarnu a oedd yn cynnig y cymwysterau hyn yn cydymffurfio ag Amod D8.1, sy'n datgan bod yn rhaid i gorff dyfarnu ddarparu gwybodaeth ddigonol i athrawon er mwyn iddynt allu cyflwyno'r cymwysterau yn effeithiol.

Canfuom yn ogystal nad oedd tri chorff dyfarnu a oedd yn cynnig y cymwysterau hyn yn cydymffurfio ag Amod E3.2(f). Mae'r Amod hwn yn datgan bod yn rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod manyleb y cymhwyster yn cynnwys y wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth fydd yn cael eu hasesu fel rhan o'r cymhwyster (ac yn esbonio cwmpas a dyfnder y rhain yn glir). Yn yr achos hwn, nid oedd y manylebau yn cynnwys manylion digonol ar gyfer canolfannau am y wybodaeth y mae'n ofynnol ei chynnwys er mwyn paratoi dysgwyr at yr asesiad.

Lle cynhwyswyd cynnwys dangosol yn y manylebau, ystyriwyd gan amlaf ei fod ar y lefel cywir o fanylder er mwyn cynnig digon o wybodaeth i'r canolfannau baratoi dysgwyr ar gyfer pob agwedd ar yr asesiad. Gwelsom hefyd enghreifftiau da o ddarparu adnoddau ychwanegol gan gyrff dyfarnu er mwyn cefnogi'r rheini oedd yn cynnal y cymwysterau.

Yn ogystal â'r uchod, roedd nifer o achosion o ddiffyg cydymffurfio a oedd yn berthnasol i gorff dyfarnu penodol. Trafodir enghreifftiau o hyn isod.

### *Cyhoeddi manyleb y cymhwyster*

Canfuwyd bod un corff dyfarnu a oedd yn cynnig y cymhwyster iechyd a diogelwch wedi peidio â chydymffurfio ag Amod E3.3(a), sy'n datgan bod rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod y fanyleb ar gyfer cymhwyster yn glir, yn gywir ac yn esbonio, i berson sy'n rhesymol wybodus, yr hyn y mae'r cymhwyster yn gofyn amdano gan y dysgwr parthed pob un o'r manylion sy'n berthnasol i'r cymhwyster. Yn yr achos hwn, nid oedd y fanyleb yn esbonio gwybodaeth ynghylch y dull asesu yn glir.

## Cynnal yr asesiad

Canfuom yn ogystal bod un corff dyfarnu wedi peidio â chydymffurfio ag Amod G1.1(a), sy'n datgan bod rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod cynnwys yr asesiad yn addas at y diben. Yn yr achos hwn, roedd anghysondebau yn rhai o'r cwestiynau yn tanseilio dilysrwydd yr asesiad.

## Marcio'r asesiad

Canfuwyd bod un corff dyfarnu a oedd yn cynnig y cymhwyster iechyd a diogelwch wedi peidio â chydymffurfio ag Amod H1.1(a), sy'n datgan bod rhaid i gorff dyfarnu gael trefniadau effeithiol ar waith i sicrhau, cyn belled ag y bo modd, bod yr aseswyr yn deall y meini prawf fydd yn penderfynu perfformiad y dysgwr a bod y rhain yn cael eu gweithredu'n gywir. Yn yr achos hwn, roedd enghreifftiau o farcio anghywir a hefyd anghysondebau yn y marcio ar draws asesiadau.

# 7. Y camau a gymerwyd gennym

Yn dilyn ein gwaith monitro, daethom i'r casgliad y gallai'r cyrff dyfarnu fynd i'r afael â'r achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd drwy gyflwyno cynlluniau gweithredu. Yn hydref 2019, amlinellwyd ein canfyddiadau i bob corff dyfarnu a chyflwynwyd yr hyn yr oeddem yn ei ddisgwyl ganddynt i fynd i'r afael â'r diffygion cydymffurfio a ganfuwyd gennym. Gwnaethom hefyd ddiweddaru ein cyd-reoleiddwyr gyda'n canfyddiadau a'r camau yr oeddem yn bwriadu eu cymryd.

## Cynlluniau gweithredu

Gwnaethpwyd yn ofynnol i bedwar corff dyfarnu (Cyngor Diogelwch Prydain, City & Guilds, Pearson a TQUK) gyflwyno i ni gynlluniau gweithredu, yn manylu ar sut yr oeddent yn mynd i fynd i'r afael â'r diffygion cydymffurfio a ganfuwyd gennym, er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â'n Hamodau Cydnabod Safonol. Hysbyswyd ni gan un corff dyfarnu (QNUK) ei fod eisoes wedi adolygu ei gymwysterau yng ngoleuni'r adborth a dderbyniwyd yn sgil gwaith monitro blaenorol a'i fod wedi cymryd mesurau i fynd i'r afael ag achosion o ddiffyg cydymffurfio yn fersiynau newydd o'r manylebau. O ganlyniad, nid oeddem yn ei gwneud yn ofynnol i QNUK gyflwyno cynllun gweithredu, ond gwnaethom yn ofynnol iddynt ein hysbysu pan fyddai'r manylebau newydd ar gael. Cyhoeddwyd y manylebau diwygiedig ym Mawrth 2020.

Darparwyd tystiolaeth i ni yn amlinellu'r newidiadau a wnaed eisoes a/neu a fwriadwyd eu gwneud gan bob corff dyfarnu a gyflwynodd i ni gynllun gweithredu. Dangoswyd gan dri chorff dyfarnu eu bod wedi mynd i'r afael â'n canfyddiadau ac wedi cymryd camau priodol er mwyn datrys unrhyw ddiffygion cydymffurfio. Yn achos dau gorff dyfarnu (City & Guilds a TQUK), roeddem o'r farn bod y diffygion cydymffurfio yn ddigon arwyddocaol i argymell eu bod o'u gwirfodd yn atal cofrestru dysgwyr am y cymwysterau hynny hyd nes i'r diffygion gael eu datrys. Gohiriodd y ddau gorff dyfarnu cofrestriadau wrth iddynt ddatrys y materion hyn trwy eu cynlluniau gweithredu.

Gwnaethom fonitro cynlluniau gweithredu'r ddau gorff dyfarnu hyd nes iddynt gyflawni pob gweithred i'n boddhad.

## Argymhellion

Cyflwynwyd argymhellion gennym hefyd i'r holl gyrff dyfarnu lle nodwyd gennym feysydd y gellid eu gwella ond nad oeddent yn gyfystyr â diffyg cydymffurfio â'n Hamodau Cydnabod Safonol. Argymhellwyd gennym fod y cyrff dyfarnu yn ystyried y meysydd hyn ond ni wnaethpwyd yn ofynnol iddynt weithredu.

## 8. Casgliad a chamau nesaf

I gloi, rydym o'r farn bod y cymwysterau hyn mewn iechyd a diogelwch a chodi a chario, ar y cyfan, yn rhai dilys a dibynadwy ac yn diwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru. Lle nodwyd pryderon gan ein gwaith monitro, gwnaethom weithredu mewn modd cymesur, tryloyw ac wedi'i dargedu drwy ofyn am gynlluniau gweithredu gan bedwar corff dyfarnu ac ystyried camau rheoleiddio mwy ffurfiol lle'r oedd gennym bryderon parhaus.

Rydym yn falch bod yr holl gyrff dyfarnu wedi ymateb yn gadarnhaol i ganfyddiadau ein gwaith monitro ac wedi gweithio gyda ni i fynd i'r afael â'r meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd. Mae'r holl weithredoedd a nodwyd bellach wedi'u cyflawni gan y cyrff dyfarnu perthnasol, gan esgor ar ddiwygiadau i:

- bapurau asesu amlddewis;
- meini prawf asesu; a
- manylebau.

Mae'r diwygiadau hyn yn gwella dilysrwydd yr asesiadau ac yn sicrhau bod manylebau'n nodi'n glir yr hyn y dylai dysgwyr ei wybod a'i ddeall er mwyn iddynt allu paratoi at asesiad.

Mae'n bosib nad yw'r diffygion a nodwyd yn ystod y gwaith o fonitro cymwysterau iechyd a diogelwch a chodi a chario yn gyfyngedig i'r sector hwnnw yn unig. Fel rhan o'n hadborth terfynol i'r cyrff dyfarnu a gymerodd ran yn y gwaith monitro hwn, gwnaethom argymell y dylent adolygu eu cymwysterau galwedigaethol eraill yng ngoleuni ein canfyddiadau.

Rydym yn parhau i ymgymryd â gwaith monitro cymwysterau galwedigaethol yn rheolaidd. Byddwn hefyd o bosib yn ymgymryd â gweithgareddau monitro eraill yng nghyswllt cymwysterau galwedigaethol mewn ymateb i bryderon a nodir gennym. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n cyd-reoleiddwyr er mwyn rhannu unrhyw bryderon ynghylch darparu, asesu a dyfarnu cymwysterau galwedigaethol a thrafod sut y gallwn gydweithio i fynd i'r afael â'r pryderon hynny.

Rydym yn annog pob corff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau rheoleiddiedig i ystyried a yw'r materion a nodwyd gan yr adroddiad hwn hefyd yn risg i ddilysrwydd y cymwysterau y maent yn eu cynnig, ac os felly, i gymryd y camau priodol i fynd i'r afael â'r materion hynny.